# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | Grŵp Trawsbleidiol ar Heddwch a Chymod |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 20 Tachwedd 2023 |
| **Lleoliad:** | Zoom |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Enw:** |
|---|---|
| Mabon ap Gwynfor (Cadeirydd) | Sion Edwards (Cyfieithydd) |
| Sam Bannon | Jill Evans |
| Mererid Hopwood | Awel Irene |
| Richard Outram | Sam Swash |
| Brian Jones | Gethin Rhys |
| Ed Bridges | Bethan Sian Jones |

## Ymddiheuriadau:

| **Enw:** | |
|---|---|
| Hayley Richards (Ysgrifennydd) | |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

Croeso, Cofnodion, materion sy'n codi

Nid yw'r cyfarfod hwn yn CCB fel y bwriadwyd, gan nad oes cynrychiolaeth o'r Blaid Geidwadol.

GWEITHREDU - Mae cyfarfod gwleidyddol brys i'w drefnu er mwyn sicrhau cynrychiolaeth drawsbleidiol.

**Cyflwyniad Heddwch ar Waith gan ei gydlynydd, Sam Bannon**

Amlinellodd SB ddiben Heddwch ar Waith (HaW) sef ei fod yn rhwydwaith lobïo Cymru gyfan, gyda'i wreiddiau yn CND Cymru a Chymdeithas y Cymod, i gynyddu'r gallu ar gyfer ymgyrchu heddwch a chyfiawnder.

Darparodd ganllaw cam-wrth-gam i bedair prif thema Heddwch ar Waith, sef:

- Mapio graddau militariaeth yng Nghymru a dwyn y wybodaeth hon i sylw pobl Cymru

- Sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei deall ymhlith aelodau etholedig ac yn arbennig pobl iau er mwyn cefnogi eu cyfranogiad gweithredol fel 'Gwneuthurwyr Heddwch Ifanc'

- Adeiladu a rheoli rhwydwaith lobïo a fydd yn creu cefnogaeth, ar lefel awdurdod lleol, Senedd a San Steffan, i'r rhaglen Heddwch ar Waith / Peace Action Wales.

- Gweithio tuag at weld Cymru yn dod yn Genedl dros Heddwch, gydag addasu Llysgenhadon Heddwch o fewn awdurdodau lleol i wrthweithio rhaglen bresennol Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog

Mae'r gweithgorau hyn i'w sefydlu mewn cyfarfod ar-lein ar 30 Tachwedd 2023.

Mewn 16 mis, y gobaith yw y bydd trafodaethau o fewn y Senedd wedi dechrau ar yr hyn y mae'n ei olygu i Gymru ddod yn Genedl Heddwch.

**Trafodaeth**

**- Pencampwyr Heddwch:**

Pencampwr Heddwch wedi'i sefydlu yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, potensial ar gyfer rhai pellach yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Ynys Môn. Potensial ar gyfer Cyngor Sir y Fflint hefyd. Gwaith i SB ddilyn i fyny.

GWEITHREDU – Ar ôl y Nadolig, y Grŵp Trawsbleidiol i anfon llythyrau at gynghorau sir eraill yn eu hysbysu o ddatblygiadau Pencampwyr Heddwch mewn cynghorau sir eraill.

**- Map rhyngweithiol Heddwch ar Waith, yn olrhain graddau militariaeth yng Nghymru**

Trafod sut y gall y Grŵp Trawsbleidiol ychwanegu at y map.

Gofynnodd SB am wybodaeth ar dir sy'n perthyn i'r llywodraeth, i bwy mae'r tir wedi ei osod, yn ogystal â gweithgareddau ar y tir hwnnw. Yn ôl MaG, mae Julie James wedi coladu rhestr o ddolenni i wefannau gyda gwybodaeth am berchnogaeth tir yng Nghymru.

**- Trafodaeth gyffredinol ar Heddwch ar Waith**

Holodd MH beth oedd y ffordd orau o osgoi dyblygu ymchwil sylfaenol Academi Heddwch. *Cymru fel Cenedl Heddwch*. Rhoddodd BSJ ddiweddariad ar yr ymchwil. Cynghorwyd y gweithgor HaW i ddarllen yr adroddiad ar ôl ei gyhoeddi.

Darparodd AI fwy o wybodaeth o ran cefndir ariannu HaW (Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree) a phwysleisiodd yr angen i ymchwilio i ffynonellau arian eraill i sicrhau ei gynaliadwyedd.

Diolchodd JE i AI am ei gweledigaeth a'i gwaith y tu ôl i sefydlu HaW. Pwysleisiodd bwysigrwydd HaW fel gofod rhannu i bawb yn y mudiad heddwch godi proffil y mudiad, gan ei fod hefyd yn adnodd canolog i gydlynu gweithgareddau ar thema heddwch.

**- Sut i hyrwyddo Heddwch ar Waith yn y Senedd**

Awgrymodd SB y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol ailddosbarthu deunyddiau wrth HaW yn ogystal â rhannu deisebau. Gan edrych i'r dyfodol, pwysleisiodd y bydd grwpiau penodol yn cael eu ffurfio o amgylch lobïo a fydd yn annog yr agenda HaW ar lefel y Senedd.

**- Ffynonellau a all fod o fudd i SB a Heddwch ar Waith**

GWEITHREDU – SS i rannu rhestr e-bost o bob cynghorydd yng Nghymru gyda SB.

GWEITHREDU – EB i roi SB mewn cysylltiad â phodlediad Hiraeth fel ffynhonnell, gan y gallent fynegu diddordeb.

GWEITHREDU – Mae aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol yn cynrychioli amrywiaeth o grwpiau yng Nghymru. SB i anfon gwybodaeth HaW at gynrychiolwyr y Grŵp Trawsbleidiol fel y gellir anfon gwybodaeth drwy eu rhestrau postio priodol.

**Unrhyw fater arall**

- Annogwyd y Grŵp Trawsbleidiol i rannu deiseb ar-lein sy'n galw am ddarparu cymorth dyngarol i Gaza. Mae ganddo 1,700 o lofnodion hyd yn hyn, ond mae angen 10,000 o lofnodion arno er mwyn iddo gael ei ystyried ar gyfer dadl yn y Senedd. Linc i'r ddeiseb: **https://deisebau.senedd.cymru/deisebau/244780**

- Mae Jill Gogh wedi bod yn casglu rhestr o ddigwyddiadau sy'n hyrwyddo heddwch ac yn annog cadoediad.

- Mae JE yn cofio 10 mlynedd yn ôl, yr Eglwys yng Nghymru yn ariannu clinig deintyddol symudol yn Gaza. Gwelodd hi pan ymwelodd â Gaza, ac roedd baner Cymru arni. Gofynnodd beth oedd wedi digwydd i'r clinig deintyddol.

- Yn ôl GR, cafodd y clinig deintyddol ei fomio ac ni wnaeth yr Eglwys yng Nghymru byth adfer y prosiect: **https://www.anglicannews.org/news/2017/06/church-funding-ends-for-gaza-mobile-dental-clinic.aspx**

- Hefyd 10 mlynedd yn ôl, mae JE yn cofio ysgrifennu at Edwina Hart am y posibilrwydd i Gymru fynd â phlant o Gaza er mwyn iddyn nhw gael triniaeth am anafiadau yng Nghymru. Cytunodd Hart i'r syniad, ond mae JE yn ansicr a ddaeth unrhyw beth pellach ohono. GWEITHREDU – MaG i ysgrifennu fel Grŵp Trawsbleidiol i weld a yw hyn yn dal yn bosibilrwydd.

- Bomio Ysbyty Al-Ahli, Gaza. GWEITHREDU - MaG i gysylltu â'r Eglwys yng Nghymru i weld beth yw eu safbwynt ar hyn.

**Dyddiad a phwnc y cyfarfod nesaf**

Cyfarfod brys i sicrhau parhad y Grŵp Trawsbleidiol. Aelodau'r Senedd yn unig.